

PROFIAD MYFYRIWR GRADDEDIG DAN HYFFORDDIANT



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



Laura Price
Myfyriwr Graddedig dan
Hyfforddiant
2020-2021

**Cynllun
Rheolaeth i
Raddedigion**

"Ymunais â PCGC fel Rheolwr Graddedig dan Hyfforddiant ym mis Chwefror 2020 ac mae fy amser ar y rhaglen i Raddedigion yma wedi bod yn gyfnod prysur iawn. Rydw i wedi cael llawer o gyfleoedd unigryw a chyffrous i gymryd rhan mewn rhai prosiectau hollbwysig ar draws sawl adran yn y sefydliad. Mae symud i dimau gwahanol yn gallu bod yn frawychus ar adegau oherwydd bod angen meithrin perthnasoedd yn gyflym ond o'm safbwynt i, rydw i wedi teimlo bod croeso wedi bod i mi ac fy mod i wedi cael fy ngwerthfawrogi ym mhob tîm rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i weithio â nhw. Mae'r holl gydweithwyr rydw i wedi gweithio gyda nhw wedi gofalu'n fawr am fy natblygiad sydd wedi fy arwain at gymryd rhan mewn prosiectau anhygoel. Mae'r gefnogaeth a gefais wir wedi dod o bob lefel. Roeddwn i'n teimlo bod pawb wedi buddsoddi'n sylweddol yn fy natblygiad. Mae hyn wedi gwneud i mi deimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi trwy gydol fy amser ar y rhaglen.

Rydw i wedi bod wrth fy modd yn gallu cymryd cyfrifoldeb am brosiectau a gallu cymryd cam yn ôl a dweud 'Gwnes i hynny' ac 'Rydw i wedi gwneud gwahaniaeth yma'. O safbwynt personol, rwy'n meddwl bod fy amser ar y cynllun i raddedigion wedi rhoi hyder a hunangred i mi, roeddwn i'n meddwl bod gen i'n barod a dweud y gwir, ond mae fy amser ar y cynllun wedi dysgu i mi fod elfennau o'r ddau ar goll ac mae datblygu'r sgiliau hynny wedi gwneud gwahaniaeth personol a phroffesiynol enfawr! Rydw i o'r farn bod hyn wedi trosglwyddo i fy mywyd personol hefyd. Rwy'n credu ynof fy hun yn fwy ac yn gwybod bod gen i'r gallu i fynd amdani!

Rwy'n teimlo fy mod wedi gwneud gwahaniaeth i'r timau rydw i wedi gweithio â nhw ac rwy'n eithaf sicr y byddent yn cytuno! Yr hyn rydw i wedi'i ddarganfod yn bersonol yw bod pob tîm wedi eisiau gwybod sut rydw i eisiau datblygu, beth fyddai'n gweithio i mi er mwyn i mi allu dysgu'r hyn rydw i eisiau wrth i mi weithio ar leoliad. Mae'n sefyllfa unigryw iddyn nhw hefyd i raddau. Mae'n rhoi'r cyfle i dimau hyfforddi a datblygu darpar gydweithwyr yn y dyfodol gan roi cyfle i raddedigion ddysgu gan aelodau allweddol o staff. Dyna hanfod y cynllun! Mae symud i dimau gwahanol hefyd wedi rhoi'r cyfle i mi rwydweithio a meithrin cysylltiadau. Rydw i wedi cyfarfod ag unigolion gwych ar fy nhaith hyd yn hyn ac wedi cwrdd â phobl rydw i bellach yn eu hystyried yn ffrindiau.

Fel sefydliad, mae PCGC wedi bod yn gefnogol iawn. I mi, mae'n dangos bod PCGC yn sefydliad sydd wedi buddsoddi yn y dyfodol ac wedi buddsoddi mewn datblygu'n barhaus. Rwy'n teimlo bod hon wedi bod yn weledigaeth a ddangoswyd ar draws yr holl dimau rydw i wedi gweithio â nhw. Mae pawb wedi bod yn awyddus i'm datblygu a gwneud i mi deimlo'n rhan o'r sefydliad. Dydy'r un gofyn ddim wedi bod yn ormod iddyn nhw ac mae'n wir pan fydd pobl yn dweud nad oes unrhyw gwestiwn yn gwestiwn gwirion!!

Pe bai'n rhaid i mi roi cyngor i unrhyw un sy'n ystyried y Cynllun i Raddedigion yn PCGC, yn syml iawn y cyngor byddai ... Ewch amdani!!"



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC